

Ymchwiliad Iechyd Meddwl Amenedigol: Cyfle i ddweud eich dweud

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

03/05/17

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru wedi cyhuddo Byrddau Iechyd Cymru o siarad gwag o ran eu cefnogaeth i greu rhwydweithiau o glystyrau meddygon teulu, gan ddweud nad yw'r clystyrau'n cael digon o gefnogaeth nac adnoddau i wneud y gwaith. Beth yw'r rhwydweithiau o glystyrau meddygon teulu, pam maent yn bwysig a pa mor gyflym y mae'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith?

Heddiw, bydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal eu sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf ynghylch y mater hwn.

Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **chynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018**. Mae'r cynllun yn ymwneud â sicrhau llwyddiant y gwasanaethau gofal sylfaenol yn y dyfodol. Mae'n egluro bod y gwasanaeth meddygon teulu'n elfen ganolog o ofal sylfaenol, ond nid yr unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth, optometreg ac ystod ehangach o wasanaethau cymunedol. Mae'r cynllun yn nodi bod angen darparu gwasanaethau gofal sylfaenol drwy ail-fodelu'r gweithlu. Mae'n nodi:

Lle mai rôl y meddyg teulu heddiw yw rhoi diagnosis a thrin y mwyafrif helaeth o bobl a welir ganddo, yn y dyfodol bydd yn fwyfwy cyfrifol am gydweithredu â gwasanaethau iechyd lleol eraill drwy'r clystyrau gofal sylfaenol er mwyn cynnig arweinyddiaeth gyffredinol i dimau aml-broffesiynol a drefnir er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a darparu mynediad i ofal er mwyn diwallu anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol ar yr adeg gywir yn y man cywir. (Cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru, Chwefror 2015, t20).



Mae hefyd yn datgan:

Yn y model gweithlu newydd hwn, bydd meddygon teulu yn parhau i chwarae rôl hollbwysig, gan gymryd cyfrifoldeb am safonau proffesiynol, darparu arweinyddiaeth glinigol a gweithio'n uniongyrchol â'r cleifion hynny sydd ag anghenion cymhleth, y gall ond sgiliau meddyg teulu eu diwallu. (t2).

Clystyrau Gofal Sylfaenol

Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydgysylltu gofal a chynllunio gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r Byrddau Iechyd wedi creu mecanweithiau cynllunio lleol drwy glystyru nifer o feddygfeydd cyfagos gan gyfuno eu poblogaethau cofrestredig i greu poblogaeth cynllunio lleol fach. **Mae 64 o'r clystyrau gofal sylfaenol hyn (a elwir hefyd yn glystyrau meddygon teulu) drwy Gymru.** Mae'r newidiadau blynyddol i'r contract meddygon teulu cenedlaethol yn cael eu defnyddio i annog meddygon teulu i gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith i sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd eu gwasanaethau.

Rhaid i bob Bwrdd Iechyd ddatblygu **cynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd**, a dylai'r rhain adlewyrchu cynlluniau eu clystyrau gofal sylfaenol yn benodol. Mae pob clwstwr gofal sylfaenol ym mhob Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei gynlluniau datblygu ei hun ac wedi'i gyhoeddi ar **wefan GIG Cymru**. Mae pob meddygfa yng Nghymru hefyd yn cyhoeddi ei chynllun ei hun fel rhan o'u gofynion o dan y contract meddygon teulu cenedlaethol (**Fframwaith Canlyniadau Ansawdd**).

Mae cynlluniau'r clystyrau gofal sylfaenol a'r byrddau iechyd yn pennu amcanion a champau gweithredu penodol i wella mynediad at ofal sylfaenol, a safon y gwasanaethau, er mwyn gwella iechyd a lles a lleihau

anhydraddoldebau iechyd. Yn ogystal â

chynllunio a darparu mwy o wasanaethau gofal sylfaenol i ddiwallu'r angen lleol, bydd gan y clystyrau gofal sylfaenol hefyd ran bwysig yn y broses o gynllunio i symud gwasanaethau ac adnoddau o'r ysbyty i'r gymuned leol er lles eu poblogaethau lleol.



Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 yn nodi:

Mae cydweithredu drwy glystyrau gofal sylfaenol yn creu gwell cyfleoedd i fabwysiadu dull arloesol o gynllunio gofal sylfaenol. Mae a wnelo arloesi ym maes gofal sylfaenol â chreu modelau ariannu newydd, modelau gwasanaeth newydd a rolau newydd i'r gweithlu, ffyrdd newydd o gontractio a phartneriaethau newydd â chymunedau a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae arloesi hefyd yn cynnwys technoleg, cynhyrchion a gwasanaethau newydd, a gweithio gyda phrifysgolion a diwydiant i gyflymu arloesi a hyrwyddo twf economaidd yng Nghymru. Mae a wnelo â gwneud y defnydd gorau o adeiladau i hyrwyddo cydweithredu rhwng gweithwyr proffesiynol (t10).

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir ei bod yn disgwyl i fyrdau iechyd gefnogi eu clystyrau gofal sylfaenol i gymryd y camau priodol ac i gyrraedd y cerrig milltir allweddol i'w helpu i ddatblygu'n gyflym ac yn gynaliadwy. Mae Cyfarwyddwyr y Byrddau Iechyd Sylfaenol, y Byrddau Iechyd Cymunedol a'r Byrddau Iechyd Meddwl yn gyfrifol am fabwysiadu dull cydgysylltiedig cenedlaethol o weithredu i hybu arloesedd yn ein gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys dulliau strwythuredig o ddarparu cymorth, dulliau systematig o werthuso syniadau newydd ac arfer da, a blaenoriaethu cyllid i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal a gwella mynediad.

Ymchwiliad y Pwyllgor

Bydd ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn canolbwyntio ar rôl y clystyrau fel modd o drawsnewid gofal sylfaenol. Nod ymchwiliad y Pwyllgor yw gwella dealltwriaeth o'r modd y mae model y clystyrau'n gweithio yng Nghymru a bydd yn ystyried:

- Sut y gall rhwydweithiau clwstwr Meddygon Teulu yng Nghymru helpu i leihau'r pwysau ar feddygon teulu, ac i ba raddau y gall clystyrau ddarparu llwybr mwy hygyrch at ofal (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol);
- Y tîm amlddisgyblaethol sy'n datblygu (sut y mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yn cyd-fynd â model newydd y clystyrau, a sut y gellir mesur eu cyfraniad);
- Yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol;



- Y cyllid a ddyrennir yn uniongyrchol i glystyrau er mwyn galluogi meddygfeydd i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio; sut y caiff arian ei ddefnyddio i leihau'r pwysau ar feddygfeydd ac i wella gwasanaethau a mynediad cleifion atynt;
- Yr heriau o ran llwyth gwaith a'r ymdrech i symud y pwyslais mewn meddygfeydd a darparu gwasanaethau atal sylfaenol er mwyn gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth a thargedu anghydraddoldebau iechyd;
- Aeddfedrwydd y clystyrau a'r cynnydd a wnaed yn y gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol i weithio ar ffurf clystyrau, gan nodi enghreifftiau o arfer gorau;
- Arweiniad lleol a chenedlaethol o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith y clystyrau, a sut y mae'r camau a gymerir yn ategu'r rheini yng nghynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru a gweledigaeth 2010, [Gosod y Cyfeiriad](#);
- Mwy o fanylion am yr agweddau sy'n cael eu gwerthuso, y cymorth sy'n cael ei ddarparu'n ganolog a'r meini prawf sydd ar waith i bennu llwyddiant neu fethiant y clystyrau, gan gynnwys sut mae mewnbwn gan gymunedau lleol yn cael ei ymgorffori yn y gwaith datblygu a phrofi sy'n cael ei wneud.

Gallwch ddilyn trafodion heddiw ar [Senedd TV](#) o 9:45.

Erthygl gan [Sarah Hatherley](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

